# MARWNAD

IR PARCHEDIG

# Mr. HARRY MORGAN,

O gerllaw Tu *Ddewi* yr hwn a derfynodd ei waith ai ddyddiau, yn y fflyddyn 1747.

I.

POB cymro fryd union, rhai mawrion a mân  
Alarwch am golli, goleini gwiw lân  
Fe welir gorthrymder, fel blinder o blâ  
Waith diffodd hardd ganwyll, dawn didwyll dyn dâ.

II.

Rhagorol weinidog, wych enwog a chû  
Discleirdeb Oleuad, i fagad a fû  
Un tirion naturiaeth, difariaeth a dôf  
Arweinydd ŵr uniawn, yn gyflawn ei gôf.

III.

Pa ddŷn mor ddymunol, rhagorol a gaer  
Gannwyl'l'un pêr anian, canhwyllbren o air  
Llywrchiad goleini, daioni bôb dŷdd  
Adeilad duwiolder, a philer y ffŷdd.

IV.

Ymddygodd ei fywyd, mwyn hyfryd mewn hedd  
Dêg onest ac union, yn wirion ei wêdd  
Fe gredodd i rhinwedd, a mawredd mâb mair  
Trwy ufydd ffydd fywiol, wrth reol ei air.

Deallir

V.

Deallir fod colled, iw weled yn wîr
Am ddyn mor ddymunol, tra ſiriol trwy 'r ſhîr
Ni haeddeu gŵr gwaredd, fwy rhinwedd fawrhâd
O herwydd roedd *Harri*, 'n oleini 'n y wlâd.

VI.

Bu *Harri* oi febyd, ai fywyd yn fwyn
Dâ oeſwr dewiſiol, am dduwiol ymddwyn
A mwy gwerthfawr gantho, oedd priſſio bob prŷd
Y greſydd noeth raſſol', na thryſſawr y bŷd.

VII.

Oes *Harri* ai fychedd, oedd rhyfedd i rh'ai
Pwy ûn dyn ai gwelodd, oi wir fodd ar fai
Dilynodd ddiwirdeb, a phurdeb hoff râd
Ca's hefyd ddawn nefol, bwer rheidiol barhaed.

VIII.

Gwachelid fford pechod, dû hynod ei haint
A rhodiodd rhyd lwybrau, pers'onau pûr Saint
Bu fyw hŷd ei ddiwedd, yn loiwedd ei lûn
Ei addyſg oedd rhwyddlan, ai anian yn ûn.

IX.

Fe fû dan ei arglywdd, ddoeth hylwdd a thêg
Marchnatteu ei bump talent, nes doeddent hwy 'n ddêg
Ca's glywed gair haeledd, trugaredd trwy gri
Dâ was a dewiſſiol, dedwyddol dy-di.

X.

Fe aeth ir orphwysfa, jawn noddfa 'n y nêf
Llê bydd y rhai Cyfiawn, mor gyflawn ag êf
Ymhlith yr Angylion, hynt union a'nt hwy
Man na ddaw ûn gelyn, na galaru mwy.

XI.

Arweinydd fel *Moſes*, fwyn gynnes fû gynt
Yn tywys *Iſrueliaid*, trueniaid trwy hunt
O dan feddiant *Pharoh*, er ceiſio Neccaed
Tua *Chanaan* wych enwog, jawn rhywiog yn rhâd.

Fe

XII.

Fe dyſtiodd fod gwradwydd, enbeidrwydd yn bôd
Ir beilchion ar bydol, annuwiol eu nôd
Ar ûn man a Difes, jawn hanes aen hwy
Ai poeneu mor ddirfawr, na dderfydd êf mwy.

XIII.

Annogodd y Cyfion, wîr union ei rân
I rhedeg a rhodio, heb flino 'n ei flaen
Cynghorau 'r annuwiol, i ymorol a ymrhoi
Oddiwrth ei ffyrdd aflan, o druan i droi.

XIV.

Bû ddyfal ei ddefod, am oſſod i maes
Anghenrhaid Profeſſwyr, yn gywir gael grâs
O achos fod bagad, ai bwriad yn brŷdd
Mor wan ar morwynion, ddiffoddſon eu ffŷdd.

XV.

Cynghoreu 'r annoethion, forwynion o frŷd
Am geyſio gwir jraidd, mwyn peraidd mewn prŷd
Waith clywed fod aflwydd, o herwydd hwyrhau
Cyn mofyn or dryſſor, ar drŵs gwedi ei gau.

XVI.

Rhybyddiodd y ffilied, i wilied rhag gwâll
A ymoſſod mewn amſer, heb gellwair yn gâll
Ai lampau 'n goleuo, gan gofio 'rhai 'gaes
Eu can o'r wledd oreu, mewn eiſiau, nhwy maes.

XVII.

Dewiſſiodd waſanaeth, ddâ helaeth o hŷd
Fe rhedodd yr yrfa, jawn benna 'n y bŷd
Ennillodd gamp uchel, lawn afel lân fwyn
Nas dichon angylion, na dynion ei dwyn.

XVIII.

Mae 'r holl weinidogion, hôff union eu ffŷdd
Ar ôl ei' madawiad, ai bwriad yn brŷdd
A phawb oi gymdogaeth, mewn hiraeth maen hwy
Chwenychen gyrhaeddyd, ei fywyd yn fwy.

XIX.

Er amled rhifedi, i hyfforddi rhai ffol
Mae cannodd iw cynnyll, o eraill ar ôl
Am fywid jawn odieth, ni adwen i ddŷn
A welir mor wiwlan, yrwan yr ûn.

XX.

Yr oedd rhai 'n gobeithio, mawr goelio mor glîr
Cae ddynion ddaeoni, drwy *Harri* drô hir
Wrth rhoddi athrawiaeth, dyfgeidiaeth dwys gâll
Droi llawer er llwyddiant, o feddiant y fâll.

XXI.

Er colli gweinidog, mor enwog ag ê
Duw ddichon gyfodi, goleini yn ei lê
Nid iw cariad Jesu, nai allu naws llai
Nis gâd bechaduriaid, trueniaid mewn trai.

XXII.

Mae duw 'n rhoddi 'ddynion hîr rhybyddion bwyll
I droi at wirionedd, dâ duedd didwyll
Oi ffyrd bechadyrus, gwilyddys eu gwedd [hêdd.
Trwy dduwiol wir addyfc, mwyn hyddyfg, am

XXIII.

Mae gwyr ag Athrawiaeth, wybodaeth wiw bêll
Heb achos' i geifio, gwyllyffio mor gwêll
Dilynwn oleini, y rheini au rhan
Cynyddwn cawn nodded, a myned' r' ûn man.

XXIV.

Fe gaeff y ffyddlonied, ymwared mae 'n wîr
O gyflwr galaru, caen hynny cyn hîr
Daw dyddiau llawenydd, gwyl beunydd gael byw
Dros oes dragwyddoldeb, mewn undeb a duw.

XXV.

Fe gaeff y rhai duwiol, happyffol heb boen
Feddiannu trugaredd, o rhinwedd yr oen
A feinio byth hefyd, yn wynfyd a wnaen
Orfoledd wir foliont, ogoniant o gân.

*Cywyd*

## *Cywyd a rhai Englynion.*

MAE caniad, mar'wnad, mor union—i *Harri*
O herwydd ei berſ'on
Dŷn o rhoddiad, dan arwyddion
Ddiwael frŷd, o dduwiol fron.

2. Cofiwn, eglurwn, ei glôd——ai ddoniau
Ddaionus fyfyrdod
Yn Rhyd-wilim, rhoed ei waelod
Bêdd neu bwll, llê bydd e n bôd.

3. *Harri* diwegi, dâ agwedd——*Morgan*
Mawrygwn ei fychedd
JESU frenin, ſû fwy' rhinwedd
Orſedd hardd, roes iddo hedd.

4. *Harri*, goleini, gwlâd;
*Harri*, hîr ei gymeriad
*Harri*, ddygodd hardd ddiwigiad
*Harri* farw, hwyr fawrhaed.

5. *Harri*, ddŷn aeddfwyn, hardd jawn oedd efo
Haeledd ddawn rh'adol, hylwydd yn rhodio
Hoiw frŵd lywydd, hyfryd oleuo
Heini dâ alwad, hynod i wilio.

Hû waith, haeleth jaith, hwyl faith wiw-lan
Heddiw yn gyfan, haeddeu ini iw gofio.

*Joan Garnon*, ai gwnaeth.

Cân

## Cân o ganmoliaeth ir Duwc WILLIAM.

TRIGOLION gwlâd Brudain, fû 'n llyfwr yn llefain
Daeth cyssyr o Lundain, wiw landeg
Lon addas lawenydd, fod lluniedd fŷd llonydd
Dâ beunydd, digyftydd, a gosteg
Cafwyd rhadau doniau dinam, lwyr ymwared weled *William*
Gyda'i luoedd i gydlwyddo, drai wrthnebwyr drwg warth heibio
Ar gelyn oer ei galon, am orsedd fu'n ymryffon
Fe dorrwyd ei ddibennion, amcanion geimion gan
Gyrrwyd hwnnw rhag dihenydd, y Duwc ai arswyd tuar corsydd
Gorfod iddo, mudo a madel, m'el ehediad am ei hoedel
Nac osnwn fwriad mynwes, y fagddu deulu diles
Y brif ffŷdd dduwiol broffes, rhwydd hanes ei rhyddha.
2. Duw cadarn or Nefoedd, sydd frenin brenhinioedd
Ac Arglwydd gwîr luoedd, Arglwyddi
Dangossodd ei Ewyllys, cû rhadol cariadus
Ir ynys, oi ddawnys, ddaeoni
Pan fu'r Deyrnas mewn caethiwed, oi râs mawr fê roes ymwared
O law'r ffyrnig lû uffernol, dwys ac amal Duw sû iw ganmol
Oi rhywiog lawn rhagluniaeth, rhoi degwch waredigaeth
Rhag eulyn gau addoliaeth, bwer helaeth i barhau:
Am wîr filwr mae 'n orfoledd, droi'n gelynion draw'n gelanedd
Y Duwc*William* dycciodd weled, ir poen eitha rhoi 'n pennae- [thiaid
Nag osnwn fwriad, &c.
3. Hén Satan gâs greulon ddewisiodd ei weision
Gelynion diofon i'n difa
Cyfodson yn ddirgel, warth rhyfig wrthrhyfel
Am gaffel tro uchel, y trecha
Gwaith cyfrwysdra yn ddirwydd-deb, megis *Haman* am ffolineb
Ceisio symyd i fŷd esmyth, a mawrydi mawr iw'ir adwyth
Eu Cyrchu ir Carchareu, a goddeu torri eu gyddfau
Dan loeson ing ac angeu, trwy friwiau Clwyfau Clau
Fê ddaeth llawer o ddryggioni, lwyr eu pennau' lawr iw poeni
I gaeth rhwdo eu gweithredodd, llîd a malais llê daw miloedd.
Nag osnwn fwriad, &c.
4. Bû 'r bradwr *Pretender*, hyll hagar, yn lloeger
Dross amser, mewn pwer, yn paro
Pan ddaeth y Duwc cywir, fe *William*, ai filwyr
Gwna 'r gelyn, ar Sawdwyr, arswydo
Y *Pretender* rhedodd ymaith, ni wynebodd o wan obaith
Arwydd, garw 'roedd e'n gyrry, i goed ac ellfydd gwedi gwylltu

Fel

Fel pryfun drwg fae 'n difa, ar helwyr yn ei helâ
Yn ddilys rhagg ei ddala, fe ffoeau tû ai ffau
Pan caes fyddin fawr rhyfeddol iddu' nerthu droi 'n ei wyrthol
Chwi'r Papiftiaid, cymrwch rhybydd, gwnaed ich ceidwad gwa-
Nag ofwn fwriad, &c. [nach gwedyn
5. Pêth chwithig anghyfion, fai diftriw, fod eftron
Mor eon, am goron, i 'mgyraedd
Ddirhinwedd, ŵr anwir, hyll adwyth, a lleidir
O natr, nid difyr, na dofedd
Nid oes yntho, ellir enwi, natr gyfion, naws daeoni
Papift ydiw, pawb a'ftynio, o wâs *Belial*, i yfbeilio
Ai fwriad ar oferedd, dro garw, di drugaredd
Hâd diafol, ai etifedd, gyffoniedd, yn cafhau [goron
Gwaeledd daniad, gelwydd dynion, iw rhoi 'n garwr jawn ir
Nôd y bwyftfil, mae 'n ei gario, wr, ai ddelw, ar ei ddwlo
Nag ofnwn fwriad, &c.
6. Fê laddodd' *Pretender*, ai luoedd ê lawer
Yn lloeger, drwy ofer, ddrŵg fwriad
Yn *Scotland* fe fpeliodd, dan yffu dinaffodd
Gweithredoedd, hyll adrodd y lledrad
Bradwr câs, ai fryd yn treifio, mewn gwanc arw, i goncwero
Ai fron hudol, am frenhiniaeth, rhoi anlladrwydd yn llywodra-
Yr Arglwydd hôll-alluog, drwy gariad Duw trugarog [eth
A gadwo'r ynys enwog, mawr rhywiog iw mawrhau
Er ir *Papift* mewn gelyniaeth, feddwl gael y fuddygoliaeth
Daeth y llywydd, *doeth a Gallu*, dâ ei ddymuniad iw diddymu.
Nag ofnwn fwriad, &c.
7. Mae llawer a hiraeth, jâs awydd yfywaeth
Am gaffel llywodraeth llew diras
Ar goron frenhinol, iw Stofi i wâs diafol
Nâd hyn, yn nawdd ddynol anaddas!
Mae 'r cyfrwyfâ meitha 'n methu, ai holl falais yn llyfelu
Mewn grâdd ofyd blin fû 'r gryddfan, uchel achwyn mawr gwyn
Bû 'n beryd i ben bonedd, arglwyddi ar eu gwaeledd [*Morgan*
O achos câs ei fuchedd, gô ffiaidd, iw goffâu
Meiftyr caled iw'r *Pretender*, i wyr rheidiol i rhoi hyder
Ni waredodd o gyfyngdra, o flaen poen, ei filwyr penna
Nag ofnwn fwriad, &c.
8. Gwell i chwi 'r llu pabedd, y werin anwiredd
Yn fwynedd i ymhwhedd am heddwch
Nag ymladd yn wyrgam yn erbyn duw *Abraham*
Ai filwr glew *William* gwagelwch
Ni thâl trifto dyfc a fynwyr, arfeu am'lrhîf y milwyr [cha
Goreu ê achyb, iw 'r gorucha, dwys edrychwch Dûw Sydd dre-
Nid duwiau all eich llwyddo, iw delwau o waith eich dwylo

Diyftyr

Diystyr ydiw ceisio, drwy grio am drugarhau
Gwyr y duwiau delwau deulu, gwael eu rhinwedd galw rheini
Mynd yn fydder yn y fyddin, ni ddaw delwau r[illegible]dd iw dilin
Nag ofnwn fwriad, *&c.*

9. Mae 'r Papist bob amser, yn hedeg ai hyder
Mewn uwchder yn ofer, anifir
Ymdrechn am drachwant, i ymladd am lwddiant
Er ffyniant gogoniant gwâg anwir
Gwych dderchafiad balchder bwriad ddawi wradwydd diwarediad
Ni thâl morol eitha mawredd, pan y delo poen dialedd
Fe dde'rbyn pawb or beilchion, wîr ofyd o wascfeuon
Pan caffo 'r hôll rhai cyfion, lawn haelion lawenhau
Mewn modd gwaeledd fê gwilyddir, Cyfeiliornad cyflwr anwir
Gwae 'r pab fieidd, oeredd arwydd, ofer goelion, ai fawr gel- [wydd
Nag ofnwn fwriad, *&c.*

10. Mae *Joan* fwyn hyfrid. yn ddidwyll yn dywedyd
Er penyd gwyn ofyd, i ganfod
Y Syrthia, gwyr uchel, hôll bobol llû *Babel*
Ir llwch yn gô ûffel, iw gossod
Fê gyll ynten 'r Pâb, heb amau, ei gyrn enwog hôll goranau
Bŷdd Caethiwed, diwarediad, am ddial ar ei ddeiliaidd
Gwae'r dynion flinion aflwydd, hyll awydd, hêb wellhau
Dysna 'n poeni, mewn trieri, fydd gelynion y goleuni
Caeff' y trawsion, wychion ucha fŷd anesmyth, fod yn isha
Nag ofnwn fwriad, *&c.*

11. Duw gadwo George rhîwiog, ein hannwyl e'neiniog
A Ffredrc dywyssog at oesi
Mewn llawnder yn *Llundain,* rhag rhyfig rhwyg Rhufain
I gaffel trwy Frudain fawrhydi
Duw fy gysson geidwad tirion, i-gadw'n ddigam William [wiwlon
I dderchafu. 'r Sect ddiniwed, y pûr dystion Protestanied
A rhwystro ir llywodraeth, bôb addysg o Babyddâeth
Enbeidys anwybodaeth, hêb helaeth amlhau
Caed ein Duwc, heb amau beynydd, ar ei elynion wîr lawenydd
Trwy fawr ffyniant, lwyddiant loiw, fuddygoliaeth fôdd acelw
Nag ofnwn fwriad mynwes y fagddu deulu diles
Y brîf ffydd dduwiol broffes, rhwydd haness ei rhyddla.

*Fe ganlyn, dâu Englyn.*

Dyma jechyd, hyfryd hêdd—ir brenin—pûr union, ei orsedd,
George yr ail, wiw rassol wêdd, gwir jawn ŵr, ir goron auredd [liwr
Gwradwydd, ac aflwydd gyflwr,—braw tân—ir *Pretender* yspei-
Poeneu bydol, pwn o bowdwr, gyda'r gwrês, a godo 'r gŵr.

TERFYN.

Mark
J. J. John Jones
Crygol these
Peter Owen
Out